| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **28, CHWEFROR, 2008.** |
| **TEITL:** | **LWFANSAU AELODAU** |
| **PWRPAS:** | **YSTYRIED CYNLLUN LWFANSAU AELODAU CYNGOR GWYNEDD** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD J. R. JONES.** |
| **AWDUR:** | **Dilys Phillips,**<br>**PENNAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD.** |

1. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ar yr 11eg o Ragfyr, 2007 ystyried awgrym gan y Bwrdd Rheoli Adnoddau, y Gyfadran Adnoddau, y dylid rhewi lwfansau aelodau ar gyfer 2008/09 fel ffordd o gyfrannu at arbedion y Cyngor.

2. Cyfeiriwyd y mater i'r Gweithgor Lwfansau Aelodau. Cyfarfu'r Gweithgor ar y 18fed o Ragfyr, ond ni ddaethpwyd i gasgliad ar y cwestiwn o rewi lwfansau. Nid oes argymhelliad o'r Gweithgor ar y mater hwn.

3. Bu'r Gweithgor hefyd yn trafod lefelau'r lwfansau cyfrifoldebau arbennig.

4. Nodwyd nad yw'r Pwyllgor Cyflogaeth bellach mewn bodolaeth ac felly nad yw'r lwfans a roddwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth yn cael ei ddefnyddio. Penderfynwyd argymell y dylid talu'r lwfans i Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion am 2008/09.

5. Penderfynwyd hefyd y dylid haneru'r lwfans presennol a delir i Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Ardal ac i'r ddau aelod heb Bortffolio ar y Bwrdd. Byddai hyn yn golygu gostwng lwfansau 10 aelod o £2,217 i £1,109 gan gynhyrchu arbediad o £11,080 (£1,108 x 10)

6. Pe byddai holl lwfansau aelodau (h.y. lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb arbennig) yn cael eu rhewi ar gyfer 2008/09 byddai hyn yn gyfystyr ag arbediad o £29,950.

7. Dylid nodi bod Grŵp Busnes y Cyngor (sy'n cynnwys Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor) wedi ystyried y mater a'u bod yn gefnogol i'r egwyddor o rewi lwfansau yn gyffredinol er nad oedd y grwpiau gwleidyddol i gyd wedi trafod y mater ar y pryd.

8, Dylid nodi hefyd bod y Panel Gwasanaethau Aelodau wedi ystyried y lwfans technoleg gwybodaeth o £300 y flwyddyn sydd wedi cael ei dalu i 13 o aelodau sydd heb ymuno a'r Cynllun Gliniaduron. Byddai hyn yn arbed £3,900.

9. Yn ei gyfarfod gynhaliwyd ar y 14, Chwefror, penderfynodd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol argymell rhewi lwfansau aelodau ar gyfer 2008/09 fel ffordd o gyfrannu at arbedion y Cyngor. Penderfynodd y Bwrdd yn ei gyfarfod gynhaliwyd ar y 19, Chwefror i dderbyn argymhellion y Pwyllgor Craffu ynglŷn â'r arbedion ond ni thrafodwyd rhewi lwfansau aelodau am 2008/09.

10 **ARGYMHELLIAD.**

i) Pe byddai'r Cyngor yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, bydd rhai newid paragraff 3(b), 4 a 5 o'r Cynllun Lwfansau Aelodau i rewi'r lwfans sylfaenol ar gyfer 2008/09.

ii) Bydd rhaid newid paragraff 4 o'r Cynllun Lwfansau i dalu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion yn lle Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth.